# SENEDD

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14:15 ar 21 MEHEFIN 2023, yn y Brif Neuadd, Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol.**

| | |
|---|---|
| Aelodau â phleidlais: | Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol); yr Athro Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi); yr Athro Qiang Shen, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol; yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr; Dr Otar Akanyeti; Mr Thomas Bates; yr Athro Hazel Davey; Dr Sarah Davies; Mr Jonathan Fry, Cadeirydd Cangen PA y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Dr Sarah Higgins; yr Athro Mererid Hopwood; Mr Dafi Jones, Llywydd UMCA; Dr Alex Mangold; Ms Elizabeth Manners, Swyddog Materion Academaidd, Undeb y Myfyrwyr; Dr Alexander Pitchford; Dr Samuel Raybone; yr Athro Eleri Pryse; Dr Alistair Shepherd; Ms Aisleen Sturrock, Llywydd Undeb y Myfyrwyr; Dr Lucy Trotter; yr Athro Iain Donnison; a'r Athro Reyer Zwiggelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion. |
| Aelodau heb bleidlais: | Yr Athro Iain Barber; yr Athro Simon Cox; a Dr Thomas Jansen. |
| Yn gweinyddu: | Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol; Mr Tim Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Dr Gethin Rhys, Dirprwy Gofrestrydd; yr Athro Simon Green, Aelod Annibynnol o'r Cyngor; a Mr Bayanda Vundamina, Llywydd etholedig Undeb y Myfyrwyr. |

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr Athro Phillipp Schofield; Dr Louise Marshall; yr Athro Andrew Evans; yr Athro Jamie Medhurst; yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Gwyddorau Bywyd); Jen Phipps; Dr Heather Norris; Dr Andrew Davies; Dr Guy Baron; Ms Emma Williams, Cofrestrydd Academaidd; Dr Ffion Jones; Dr Aloysius Igboekwu; Dr Anoush Simon; Dr Cathryn Charnell-White; Ms Jackie Sayce; yr Athro Helen Roberts, Cyfarwyddwr Rhagoriaeth ac Effaith Ymchwil.

## 51. MATERION A GODWYD GAN YR IS-GANGHELLOR

1. Cydymdeimlad

   Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

   Janet Rowlands, Gwasanaethau i Fyfyrwyr

   Frank Bott, Yr Adran Gyfrifiadureg

2. Croeso

   Ymunodd yr Is-Ganghellor trwy MS Teams a chroesawodd yr Athro Simon Green, aelod annibynnol o'r Cyngor, yn sylwebydd. Cadeiriwyd gweddill y cyfarfod gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr).

**52. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

**53. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 03 Mai 2023 (SEN2223-069).

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

**54. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN2223-070).

NODWYD

Y diweddariadau a roddwyd yn y cofnodydd penderfyniadau

4. Y Ganolfan Saesneg Rhyngwladol a dysgu iaith: byddai'r Ganolfan yn parhau i gynnig cymorth ieithyddol penodol yn ystod y tymor, yn ogystal â chyrsiau haf i fyfyrwyr rhyngwladol cyn iddynt gyrraedd. Byddai'r Brifysgol yn dal ati i adolygu ei darpariaeth arferol o gymorth ieithyddol yn y Saesneg a'r Gymraeg, gan ddynodi adnoddau i roi'r gefnogaeth briodol yn ôl yr angen. Caewyd y pwynt gweithredu.

9.8 Y Bwrdd Academaidd: cynhaliodd Undeb y Myfyrwyr ymgyrch i dynnu sylw at gydgynllwynio, a chaewyd y pwynt gweithredu. Byddai Gwasanaeth Cynghori Undeb y Myfyrwyr yn parhau i bwysleisio i fyfyrwyr peryglon cydgynllwynio a defnyddio Ddeallusrwydd Artiffisial.

9.8 Y Bwrdd Academaidd: byddai Llawlyfr Ansawdd Academaidd 2023/24 yn cyfeirio at rannu ymchwil a gwaith a asesir, a chaewyd y pwynt gweithredu.

26. Blackboard Ultra: byddai hyfforddi staff yn parhau yn ystod yr haf, ynghyd â sesiwn diwrnod llawn yn ystod y Gynhadledd Dysgu ac Addysgu. Caewyd y pwynt gweithredu.

47.7 Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol: byddai'r argymhellion terfynol i sefydlu Ysgol Ieithoedd a Llên yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor yng nghyfarfod mis Gorffennaf, ac yn cael eu cylchredeg i aelodau'r Senedd er gwybodaeth.

49.7 Grantiau Ymchwil: yn y dyfodol, cytunwyd y dylai'r Senedd dderbyn data helaethach ar y grantiau ymchwil a enillwyd, ynghyd â rhestr o unigolion i'w llongyfarch ar eu llwyddiant.

**PENDERFYNWYD:** Yn y dyfodol, cytunwyd y dylai'r Senedd gael data helaethach am y grantiau ymchwil a enillwyd [**Gweithredu:** Dirprwy is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi)]

**55. GOHEBIAETH**

Doedd dim gohebiaeth i'w gofnodi.

**56. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR I'R SENEDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (SEN2223-071).

NODWYD

1. Roedd tair rhan i'r adroddiad: adroddiad amlygu; adroddiad ar gynllunio a gwaith denu myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebu.

2. Roedd adolygiad o gefnogaeth y gwasanaethau proffesiynol i'r adrannau academaidd yn mynd rhagddo. Byddai'r casgliadau'n cael eu hadrodd i'r Is-Ganghellor ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

3. Cyhoeddwyd y *Complete University Guide* ar 7 Mehefin, ac roedd Prifysgol Aberystwyth yn yr ail safle yn y Deyrnas Unedig am Foddhad Myfyrwyr ac yn drydydd am Wasanaethau Academaidd. Dringodd y Brifysgol 14 lle i rif 39 yn gyffredinol, a hi yw'r ail uchaf yng Nghymru.

4. Agorwyd yr arddangosfa 'Ffoaduriaid yng Nghymru a ddihangodd rhag Sosialaeth Genedlaethol' ym Mhalas San Steffan, wedi'i churadu gan Dr Andrea Hammel a Dr Morris Brodie.

5. Roedd y gwaith adnewyddu'n mynd rhagddo'n dda yn yr Hen Goleg, a byddai ychwanegu adeilad y Cambria at y cynllun yn ddiweddar yn rhoi mwy o le ar gyfer llety ac yn cryfhau gallu'r prosiect i greu refeniw.

6. Roedd y Brifysgol yn parhau ar y trywydd cywir i gyflawni'r gyllideb a ragwelwyd, sef gwarged £0.3m, diolch i ymdrechion staff i weithredu cyfres o gamau lliniaru, gan gynnwys tynhau gwariant pob adran ar nwyddau traul, a chyflwyno proses graffu fanylach ar swyddi gwag.

7. Byddai'r seremonïau Graddio yn cael eu cynnal dros dridiau, o ddydd Mawrth 18 tan ddydd Iau 20 Gorffennaf.

**57. PWYLLGOR YMCHWIL AC ARLOESI**

1. <u>Adroddiad gan y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi</u>

   DERBYNIWYD

   Adroddiad gan y Tîm Effaith Ymchwil (SEN2223-054).

   NODWYD

1. Gohiriwyd ‘Diwrnod Mawr Ymchwil 4’ tan ddechrau’r flwyddyn academaidd nesaf oherwydd diffyg galw ac er mwyn i’r Dirprwy Is-Ganghellor newydd allu llywio’r gwaith.

2. Bu’r fformat cynhwysol newydd ar gyfer monitro ymchwil yn llwyddiant, ac yn debygol o gael ei ailadrodd bob dwy flynedd, a chadw’r fformat traddodiadol i’w gynnal bob chwe mis.

3. Roedd ‘cadw hawliau’ yn cael ei fabwysiadu gan nifer cynyddol o brifysgolion, a ffurfiwyd grŵp gan Gwasanaethau Gwybodaeth i ystyried ymarferoldeb hyn i Brifysgol Aberystwyth.

2. <u>Offeryn Disgwyliadau Ymchwil</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi) (SEN2223-073).

NODWYD

1. Bod y papur yn amlinellu sail resymegol, egwyddorion a defnydd proses newydd ar gyfer disgwyliadau ymchwil, i’w defnyddio gan adrannau i gefnogi staff ar lefel disgyblaethau, gan lywio’r trafod a’r datblygu mewn amgylchedd ymchwil sy’n newid.

2. Yn ystod y cyfnod datblygu, cafwyd sylwadau gwerthfawr gan Undebau a staff academaidd. Er ei fod ar wahân i’r Broses Cyfraniad Effeithiol, byddai’r Offeryn Disgwyliadau Ymchwil yn llywio trafodaethau rhwng staff a’u rheolwyr llinell, yn cynnwys achosion lle mae gan staff ymchwil lawer o gyfrifoldebau ychwanegol arweiniol yn eu hadran neu gyfadran. Byddai angen i’r Brifysgol hefyd adolygu’r broses yng ngoleuni’r newidiadau disgwyliedig i FfRhY.

3. Cytunwyd y dylid cynnal yr adolygiad Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant ynghynt, 12 mis ar ôl cyflwyno’r cynllun.

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwyo’r Offeryn Disgwyliadau Ymchwil, yn amodol ar fân newid i ddyddiad adolygu Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant. [**Gweithredu:** Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi)]

3. <u>Polisi Seibiant Ymchwil</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi) (SEN2223-073).

NODWYD

1. Nododd cydweithwyr ar draws y Brifysgol mai’r cyfyngiad pennaf ar berfformiad ymchwil oedd diffyg amser. Byddai’r newidiadau a gynigiwyd yn cyflwyno

'seibiant ymchwil byr', ynghyd ag ymrwymiad i weithio tuag at eu cynyddu i 1 semester ymhob 6. Roedd hwn yn nod heriol a fyddai angen dull cyfannol i'w gyflawni, ac mae rhai adrannau eisoes yn adolygu effeithiolrwydd modiwlau ac asesiadau o fewn i'w rhaglenni dysgu cyffredinol.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwyo'r newidiadau i'r Polisi Seibiant Ymchwil. [**Gweithredu:** Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi)]

**58. ADRODDIAD GAN Y BWRDD ACADEMAIDD**

1. <u>Adroddiad gan y Bwrdd Academaidd</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd, Kim Bradick (SEN2223-075).

NODWYD

1. Bod yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2023.

2. Cyhoeddwyd canllawiau diwygiedig i'r sector gan yr Awdurdod Defnyddwyr a Marchnadoedd (CMA). Gosodwyd isafswm gofynion, a byddai'r Brifysgol yn cynnal arolwg i sicrhau bod unrhyw newidiadau i arferion, polisïau, rheolau a rheoliadau yn parhau i gydymffurfio â'r gyfraith.

3. Cytunodd y Bwrdd Academaidd y dylid ffurfio Grŵp Llywio Gwaith Achosion Myfyrwyr a chanddo gyfrifoldeb dros fonitro polisi a gweithdrefnau. Byddai'n ystyried datblygiadau yn y sector ehangach ac yn cyflwyno argymhellion ym meysydd Disgyblu Myfyrwyr, Cwynion Myfyrwyr, Apeliadau, ac Adolygiadau Terfynol. Byddai hefyd yn cael adroddiadau rheolaidd ar natur a nifer yr achosion a drafodwyd yn y Brifysgol. Bydd Undeb y Myfyrwyr ac adrannau gwasanaethau proffesiynol allweddol yn cael eu cynrychioli, ac ystyrir y cylch gorchwyl yng nghyfarfod Gorffennaf y Bwrdd Academaidd.

4. Yn dilyn argymhellion y Gweithgor Asesu, Adborth ac Uniondeb Academaidd, cymeradwywyd newidiadau i'r canllawiau ar nifer a maint asesiadau. Er mwyn cyd-fynd â chyfartaledd y sector, cwtogwyd maint asesiadau mewn modiwl israddedig 20 credyd yn Rhan 2 o 5,000 i 4,000 o eiriau. Ni fyddai canllawiau Rhan 1 a thraethodau estynedig israddedig yn newid. Cytunwyd hefyd na ddylai modiwl 20 credyd yn Rhan 2 gynnwys mwy na dau asesiad cyfansymiol (pro rata ar gyfer pwysiant 10 credyd). Ystyrid unrhyw gais i amrywio'r gofynion hyn ar sail disgwyliadau PSRB gan Ddeoniaid Cyswllt y Cyfadrannau (Dysgu ac Addysgu). Cydnabu'r Grŵp Asesu hefyd bod heriau wrth addasu trefniadau asesu, megis taflenni gwaith wythnosol, a byddai'r trafodaethau'n parhau mewn ymgynghoriad â'r Deoniaid Cyswllt.

5. O dan reol newydd a argymhellwyd gan y Bwrdd Academaidd, ni fyddai dyddiad cau cyflwyno traethodau Meistr blwyddyn, amser llawn yn cael ei osod yn hwyrach na phythefnos cyn dydd Gwener yn Wythnos Groeso'r flwyddyn academaidd ganlynol. Ymgynghorwyd â'r Cyfadrannau a'r adrannau academaidd cyn cyflwyno'r argymhelliad, ac wrth nodi rhai gwrthddadleuon cryf, cytunodd y

Bwrdd y dylid cyflwyno'r cynnig. Ni fyddai cyfnod cofrestru'r rhaglenni blwyddyn yn newid, a byddai'r newid yn caniatáu i adrannau weithredu estyniadau pythefnos o fewn i'r cyfnod cofrestru, gan osgoi trafferthion os collir hawl i ddefnyddio adnoddau Gwasanaethau Gwybodaeth.

6. Byddai canllawiau'r Brifysgol ar y Flwyddyn mewn Diwydiant yn cael eu haddasu er mwyn egluro na fydd gan fyfyrwyr sy'n methu'r flwyddyn dramor gyfle i ailsefyll os yw dyddiad cau'r asesiad yn hwyrach na dyddiad byrddau arholi semester dau. Byddai myfyrwyr sy'n methu'r flwyddyn dramor yn cael eu symud i'r fersiwn cyfatebol y cynllun – heb flwyddyn dramor – am eu blwyddyn olaf. Cytunwyd fodd bynnag y byddai'r drefn amgylchiadau arbennig yn ystod byrddau arholi yn ystyried y nifer fach o achosion lle ceir amgylchiadau arbennig gwirioneddol.

7. Achredu BCS: Ni fyddai'r Adran Gyfrifiadureg bellach yn ceisio achrediad BCS lefel uwch ar gyfer dyfarniadau Meistr Integredig MEng/MComp. Byddai'r rhain wedi gosod amod yn dweud na cheid methu mwy na 30 credyd trwy gydol y cynllun (yn cynnwys Rhan 1). Byddai'r Adran felly'n dychwelyd at y rheoliadau Meistr Integredig gwreiddiol a weithredwyd cyn Medi 2022. Eglurwyd hefyd y byddai achrediad y cynlluniau hyn yn parhau o dan gofrestr *Chartered IT Professional (CIPT)*.

**PENDERFYNWYD**

8. Adfer y rheoliad gwreiddiol ar gyfer myfyrwyr cyfredol MEng a MComp trwy ddileu paragraff 22a yn y Rheoliadau ar gyfer Graddau Modiwlar Cychwynnol. [**Gweithredu:** y Gofrestrfa Academaidd i gyhoeddi'r rheoliadau diwygiedig, a'r Adran Gyfrifiadureg i egluro'r newidiadau i bob myfyriwr a oedd wedi cofrestru ar y cynllun ym mis Medi 2022.]

9. Cymeradwyo'r newidiadau i ddyddiadau cau gradd Meistr. O 2023/24, ni fyddai'r dyddiad olaf i gyflwyno traethawd Meistr blwyddyn, amser llawn yn hwyrach na phythefnos cyn dydd Gwener yr Wythnos Groeso yn y flwyddyn academaidd ganlynol. [**Gweithredu:** y Gofrestrfa Academaidd i gyhoeddi'r gofynion newydd a rhoi gwybod i'r holl adrannau academaidd.]

2. <u>Addasiadau i Reoliadau a Chonfensiynau Arholiadau: FDSc Nyrsio Milfeddygol</u>.

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd (SEN2223-076).

NODWYD

1. Cafodd rheoliadau penodol eu hystyried gan y Bwrdd Academaidd 'yn amodol ar achredu'. Byddent yn wahanol i'r rheoliadau arferol gan y byddai'n rhaid i fyfyrwyr basio pob rhan o bob modiwl, ynghyd â chwblhau lleoliad integredig yn ystod semester 2 ym Mlwyddyn 2 a semester 1 ym Mlwyddyn 3.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwyo'r rheoliadau penodol ar gyfer FDSc Nyrsio Milfeddygol ar gyfer dechreuwyr Medi 2024. [**Gweithredu:** y Gofrestrfa Academaidd i gyhoeddi'r rheoliadau ar-lein.]

3. <u>Diweddariad Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol – Adroddiadau Blynyddol ar gyfer 2022</u>.

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd (SEN2223-077)

NODWYD

Dengys y datganiad terfynol a swyddogol am y flwyddyn yn dod i ben 31 Rhagfyr 2022 bod ffigyrau Prifysgol Aberystwyth yn parhau’n is na’r cyfartaledd ar gyfer y band, sy’n awgrymu bod prosesau’r Brifysgol a’r dull o’u gweithredu’n parhau’n addas a phriodol.

4. <u>Dyddiadau Tymor 2025/26</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd (SEN2223-078)

NODWYD

1. Bydd y tymhorau bellach yn gorffen ar ddydd Gwener yn hytrach na dydd Sadwrn, a byddai wythnos gynefino reolaidd yn cael ei chynnal yn semester dau i fyfyrwyr sy’n dechrau ym mis Ionawr. Cynnig mewn egwyddor yn unig oedd dyddiadau Semester S, wrth aros i ddyddiadau dechrau derbyn carfan Ionawr gael eu cadarnhau.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwyo dyddiadau 2025/26. [**Gweithredu:** y Gofrestrfa Academaidd i gyhoeddi unwaith y bydd dyddiadau dechrau Ionawr wedi eu cadarnhau.]

5. <u>Rheoliadau Gradd PhD</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Alan Macmillan, Cofrestrydd Cyfadran (Cyfadran Busnes a’r Gwyddorau Ffisegol) (SEN2223-079)

NODWYD

1. Croesawodd yr aelodau’r cynnig i gynyddu lleiafswm y cyfnod rhan-amser i chwe mlynedd, gan ddod â’r Brifysgol yn gyson ag arfer y sector a sicrhau amser cyfartal pro rata i’r holl ymgeiswyr PhD.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwyo’r diwygiadau i’r rheoliadau PhD [**Gweithredu:** y Gofrestrfa Academaidd]

6. <u>Rheoliadau dyfarnu gradd PhD trwy Weithiau Cyhoeddedig</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Alan Macmillan, Cofrestrydd Cyfadran (Cyfadran Busnes a’r Gwyddorau Cymdeithasol) (SEN2223-080)

NODWYD

1. Y cynnig y dylid cyfyngu’r dyfarniadau i ymgeiswyr oedd yn aelodau staff Aberystwyth, ac i newid gofynion gweithiau creadigol er mwyn caniatáu ar gyfer dadansoddiad beirniadol estynedig.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwyo’r newidiadau i’r Rheoliadau ar gyfer dyfarnu PhD trwy Weithiau Cyhoeddedig. [**Gweithredu:** y Gofrestrfa Academaidd]

7. Cyflwyniad Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth 2022/23

DERBYNIWYD

Cyflwyniad Blynyddol 2022/23 (SEN2223-075b)

NODWYD

Argymhellion ffurfiol y cyflwyniad ynglŷn â gwasanaethau lles a llety, a’r sylwebaeth ar nifer o faterion eraill yn cynnwys gweithredu diwydiannol, amrywiaeth yn y cwricwlwm, a’r cymorth a’r arweiniad a roddir i fyfyrwyr rhyngwladol. Byddai ymateb y Brifysgol yn cael ei ystyried yng nghyfarfod y Bwrdd Academaidd ym mis Gorffennaf.

**59. ADRODDIAD GAN Y BWRDD MARCHNATA A DENU MYFYRWYR**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Kylie Evans, Pennaeth Gweithrediadau Derbyn Myfyrwyr (SEN2223-081).

NODWYD

1. Bod yr adroddiad yn crynhoi’r prif faterion a drafodwyd yn ystod cyfarfod y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr a gynhaliwyd ar 2 Mehefin 2023.

2. Y cwymp o 5.8% mewn ceisiadau, o’i gymharu â chwymp o 5% ymhlith cystadleuwyr, a 2% ar draws y sector. Er bod hyn yn achos gofid, gwelwyd 3% o gynnydd yn y sefyllfa trosi o’i gymharu â’r un safle yn 2022.

3. Bod Uniquest yn ymweld â’r Brifysgol ar 21 Mehefin 2023 i arwain gweithdy ar dueddiadau a datblygiadau’r farchnad Uwchraddedig trwy Gwrs, ar gyfer myfyrwyr Cartref a Rhyngwladol.

4. Byddai’r Tîm Derbyn Myfyrwyr yn trefnu Cynhadledd Derbyn ar gyfer holl staff y Brifysgol ddydd Mercher 6 Rhagfyr 2023. Byddai’r rhaglen yn cynnwys nifer o siaradwyr allanol.

6. Byddai’r aelodau’n croesawu trafodaeth helaethach ar faterion Marchnata a Denu Myfyrwyr yn ystod cyfarfodydd y Senedd, a chytunwyd y dylid ystyried hynny yng nghyd-destun ar y cyd â chanlyniadau’r adolygiad ar effeithiolrwydd pwyllgorau.

**PENDERFYNWYD:**

7. Ystyried trafodaethau'r Senedd ar faterion Marchnata a Denu Myfyrwyr yn rhan o'r adolygiad blynyddol ar effeithiolrwydd pwyllgorau. [**Gweithredu:** Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu, a Phrofiad Myfyrwyr)]

**60. MATERION LLYWODRAETHU**

1. <u>Canlyniad Dogfennau Llywodraethu a'r Siarter ac Ystatudau</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN2223-082).

NODWYD

1. Y diwygiadau a gynigiwyd i Ordinhad 03 – yr Is-Ganghellor, ac Ordinhad 21 – Unedau Academaidd.

**ARGYMHELLWYD:**

2. I'r Cyngor y dylid cymeradwyo'r diwygiadau i Ordinhadau 03 a 21. [**Gweithredu:** Ysgrifennydd y Brifysgol]

2. <u>Canlyniad adolygiadau ar effeithiolrwydd pwyllgorau.</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN2223-083)

NODWYD

1. Bod aelodau wedi eu gwahodd i gwblhau holiadur ar waith y corff llywodraethu academaidd yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol. Byddai'r sylwadau a wnaed yn cael eu hystyried yn rhan o waith y Senedd trwy gydol 2023/24, i sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni'n effeithiol.

2. Yr angen i gwblhau blaenddalen pwyllgor yn llawn, gan nodi'r berthynas rhwng yr adroddiad a'r strategaeth sefydliadol.

**61. AILENWI CADAIR WOODROW WILSON MEWN GWLEIDYDDIAETH RYNGWLADOL, YN YR ADRAN GWLEIDYDDIAETH RYNGWLADOL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Alistair Shepherd, Pennaeth Dros Dro yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol (SEN2223-084).

NODWYD

1. Y trafodaethau a arweiniodd at ailenwi Cadair Woodrow Wilson, ac addasrwydd yr enw arfaethedig, a fyddai'n adlewyrchu cyfraniad sylweddol Aberystwyth i ddisgyblaeth Gwleidyddiaeth Ryngwladol.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwyo’r enw newydd, ‘Cadair Aberystwyth mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol’. [**Gweithredu:** Pennaeth Adran, Gwleidyddiaeth Ryngwladol]

**62. MATERION ER GWYBODAETH**

DERBYNIWYD

Derbyniodd yr aelodau yr adroddiadau canlynol er gwybodaeth:

1. Adroddiad gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (SEN2223-085) a;

2. Crynodeb o’r Gofrestr Risg Gorfforaethol (SEN2223-086);

NODWYD

3. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

**63. COFNODION PWYLLGORAU**

DERBYNIWYD

Adroddiad yn cynnwys y canlynol (SEN2223-087):

1. Y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi (31 Mai 2023);

2. Y Bwrdd Academaidd (07 Mehefin 2023);

3. Y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr (02 Mehefin 2023);

NODWYD

4. Yr adroddiadau a dderbyniwyd gan y pwyllgorau.

**64. UNRHYW FATER ARALL**

NODWYD

Nodwyd diolchiadau a dymuniadau gorau’r aelodau i’r canlynol:

1. Swyddogion Sabothol y Myfyrwyr ar ddiwedd eu tymor: Ms Aisleen Sturrock; Elizabeth Manners; Dafi Jones.

2. Yr Athro Eleri Pryse, yn ymddeol yn aelod o’r Senedd ac o’r Brifysgol.

3. Yr Athro Colin McInnes, yn bresennol yn ei gyfarfod olaf o’r Senedd yn Ddirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi).

4. Yr Athro Jamie Medhurst (Theatr, Ffilm ac Astudiaethau Gwybodaeth) a’r Athro Phillipp Schofield (Hanes a Hanes Cymru) ar ddiwedd eu cyfnod yn Benaethiaid Adran.

5. Yr Athro Robert Meyrick, yn ymddeol yn Bennaeth ar yr Ysgol Gelf ac o’r Brifysgol ar ôl dros ddeugain mlynedd o wasanaeth.

6. Mr Steve Walsh, yn ymddeol o fod yn Gyfarwyddwr Cynllunio.

7. Ms Michelle Carwardine-Palmer, yn gadael ei swydd yn Gyfarwyddwr Dros Dro Canolfan y Celfyddydau.

Croesawyd y canlynol gan yr aelodau i'w swyddi newydd:

8. Yr Athro Catrin Webster, Pennaeth yr Ysgol Gelf.

9. Dr Kim Knowles, Pennaeth yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu.

10. Dr Steven Thompson, Pennaeth yr Adran Hanes a Hanes Cymru.

11. Mr David Wilson, Cyfarwyddwr Canolfan y Celfyddydau.

HGRh 270623